

Dinistr Daeargrynfeydd 2011: Ymateb Cristnogol

Llifogydd maesawyr Sendai. Llun:Samuel Morse

Ym mis Ionawr 2010, bu daeargryn yn Haiti a effeithiodd ar 3 miliwn o bobl. Daeargryn hefyd a drawodd ddinas Christchurch ar Ynys y De, Seland Newydd ym mis Chwefror eleni. Prin fis yn ddiweddarach, achosodd y daeargryn a drawodd Sendai yn Japan i tswnami godi a tharo'r tir mawr. Golchwyd trefi cyfain i ffwrdd gan y tswnami a chollodd mwy na 15,000 eu bywydau.

Atebion annigonol

Mae rhai yn gofyn y cwestiwn, 'Pam?' Cyfyngir ateb annigonol yr anffyddiwr i'r ffaith mai symudiad platiau tectonig sy'n gyfrifol. Dywed eraill mai'r fam ddaear sy'n talu'n ôl am esgeulustod y ddynoliaeth. Ond beth am y Cristion?

Gall digwyddiadau fel hyn beri i Gristnogion ddechrau derbyn syniadau am Dduw nad ydynt yn Feiblaidd. Er enghraifft, gellid amau a yw Duw yn hollalluog; os Duw cariad yw, pam y mae'n caniatáu dioddefaint? Mae llyfr D. A. Carson, *How Long, O Lord?* yn lle da i ddechrau ystyried atebion i'r cwestiynau dyrys hyn.

Barn?

Un ddamcaniaeth yn unig y manylwn arni yma, sef yr awgrym mai barn uniongyrchol Duw yw'r fath drychinebau, yn erbyn agweddau annuwiol neu bechodau penodol amlwg yn y gwledydd sydd wedi dioddef. Mae rhai wedi cyfeirio at arferion defodau fŵdŵ yn Haiti ac eraill yn tynnu sylw at fateroliaeth Siapan.

Ceir enghreifftiau yn yr Hen Destament lle cysylltir trychinebau â phechodau penodol: y tân a'r brwmstan yn disgyn ar Sodom a Gomorra (Genesis 19:24); a deg pla yr Aifft (Exodus 7-11), er enghraifft.

Meddyliwn hefyd am y pla o locustiaid yn llyfr Joel. Roedd yn drychineb ar raddfa ddramatig: 'A ddigwyddodd peth fel hyn yn eich dyddiau chwi, neu yn nyddiau eich hynafiaid?' (Joel 1:2). Cawn syniad o'r dinistr o ddysgu bod 10 biliwn o'r pryfed yma yn medru cael eu cenhedlu'n sydyn, ac wedyn heidio a chreu cwmwl sy'n aceri o hyd a lled.

Geiriau Crist

Beth amdanom ninnau heddiw, ar ôl dyddiau'r Testament Newydd? Rhybuddiodd Iesu y byddai trychinebau naturiol yn digwydd hyd ddiwedd amser (Mathew 24:7). A oes gennym ninnau'r hawl i ddatgan eu bod yn arwydd o farn uniongyrchol?

Gadewch i ni ystyried geiriau Iesu yn Luc 13:1-5:

Yr un adeg, daeth rhywrai a mynegi iddo am y Galileaid y cymysgodd Pilat eu gwaed â'u hebyrth. Atebodd ef hwy, "A ydych chwi'n tybio fod y rhain yn waeth pechaduriaid na'r holl Galileaid eraill, am iddynt ddioddef hyn?'

Cawn ein hatgoffa o gamgymeriad cysurwyr Job, sy'n mynnu bod dioddefaint Job yn ganlyniad i'w bechod. Mae ateb Iesu yn drawiadol:

> *'Nac oeddent, meddaf wrthych; eto, os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yr un modd. Neu'r deunaw hynny y syrthiodd y tŵr arnynt yn Siloam a'u lladd? A ydych chwi'n tybio fod y rhain yn waeth troseddwyr na holl drigolion eraill Jerwsalem? Nac oeddent, meddaf wrthych; eto, os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd' (Luc 13:1-5).*

Ymetyb Iesu'n gadarn i'r awgrym bod y Galileaid a'r deunaw yn Siloam yn fwy pechadurus na'r bobl o'u cwmpas. Mae am i'r rheini sy'n ei holi boeni'n fwy am y byd nesaf na'r byd hwn, a sylweddoli mor fregus yw eu sefyllfa hwythau. Yn hytrach na dechrau trafodaeth ar arwyddocâd dioddefaint, rhybuddia'r bobl o fygythiad mwy brawychus: y farn derfynol: *'Os nad edifarhewch, fe dderfydd amdanoch oll yn yr un modd'.*

Yr un, mewn gwirionedd, oedd neges Joel a welai drychineb y locustiaid yn gysgod a darlun o'r dioddefaint mwy a fydd ar Ddydd y Farn. 'Edifarhewch' oedd ei her a'i anogaeth yntau hefyd.

> Dywedodd C.S. Lewis yn ei lyfr *The Problem of Pain*: *God whispers to us in our pleasures; speaks in our conscience; but shouts in our pains – it is his megaphone to rouse a deaf world.*

Cyfle

Trown, i orffen, at eiriau Iesu yn Efengyl Ioan er mwyn gweld gwedd arall ar ymateb yr Eglwys i ddioddefaint. Gwelwn mai cwestiwn tebyg oedd gan ddisgyblion Iesu wrth ddod ar draws dyn dall:

> *'Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn ynteu ei rieni, i beri iddo gael ei eni'n ddall?' Atebodd Iesu 'Ni phechodd hwn na'i rieni chwaith, ond fe amlygir gweithredoedd Duw ynddo ef' (Ioan 9:2,3).*

Yn yr achos hwn, amlygwyd gweithredoedd Duw yn y wyrth rasol o iacháu. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y gall pobl weld elusen Gristnogol ar waith yng nghanol poen a dinistr, a holi o ble y daw'r fath gariad. Dyna ran o'r rheswm pam y dylai Cristnogion leddfu poen a chynnig help ariannol ac ymarferol. Gweddïwn y bydd y trychinebau diweddar yn gyfle i amlygu gweithredoedd Duw. Gweddïwn y gwêl pobl freuder bywyd a realiti tragwyddoldeb. Gweddïwn y bydd galw ar Dduw mewn edifeirwch.

Dewi George

Mae Dewi George yn athro Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gartholwg. Mae'n henuriad yn Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd.

Seland Newydd

'The 6.3 magnitude earthquake that brought a city to its knees and broke a nation's heart. Our darkest day. A disaster beyond comprehension that has left hundreds missing, scores dead and ruined countless lives. Hopes have faded and dreams have crumbled, much like that once-mighty cathedral.' (www.stuff.co.nz)

A ninnau'n byw yn Wellington, y ddau beth mwyaf trawiadol i ni am y daeargryn yn Christchurch ym mis Chwefror oedd cefnogaeth a charedigrwydd pobl i drigolion y ddinas ar y naill law, ond ar y llall, cyn lleied mae'r digwyddiad wedi herio byd-olwg (*world-view*) a ffordd o fyw pobl Seland Newydd yn gyffredinol.

Synnwyd pawb pan drawodd y daeargryn cyntaf ar 4 Medi 2010, ond roedd rhyddhad amlwg mai adeiladau yn unig a ddifrodwyd. Mor wahanol oedd y sefyllfa yn dilyn y trychineb ar 22 Chwefror. Syfrdanwyd pobl gan faint y chwalfa: collwyd 181 o fywydau a dinistriwyd canol dinas Christchurch. Ond roedd tosturi a chydymdeimlad, ynghyd ag agwedd benderfynol, yn amlwg trwy'r wlad. Daeth y gymuned leol, ac yn wir y genedl, at ei gilydd i fod yn gefn i'r dioddefwyr.

Bedwar mis yn ddiweddarach mae'r ôl-gryniadau yn parhau, ond ni roddir yr un sylw iddynt. Bellach mae'r cyfryngau yn canolbwyntio ar y rhai sy'n gadael y ddinas, a'r gwaith o drwsio ac ailadeiladu – a chost hynny. O fyw mewn dinas arall mae'n anodd gwybod yn iawn beth yw'r effaith ar fywydau pobl Canterbury o ddydd i ddydd. Clywn hanesion gan gydweithwyr a ffrindiau am nosweithiau di-gwsg, colli eiddo gwerthfawr, a'r pryder a ddaw gyda phob dirgryniad.

Felly, mae bywyd yn parhau yn Seland Newydd. Yr argraff a gawn yw na fu oedi hir i holi am rôl Duw yn y trychineb, na myfyrio ar freuder bywyd a'i bwrpas. Effaith economaidd y trychineb yn ystod dirwasgiad a Chwpan Rygbi'r Byd ar y gorwel sy'n mynnu'r sylw yn bennaf. Ymateb trigolion Wellington, at ei gilydd, yw nad oes diben gofidio am bosibilrwydd o ddaeargryn yn y ddinas hon.

Owain ac Angharad George (Wellington)

Ffurflen Tanysgrifio i'r *Cylchgrawn Efengylaidd*

○ **a.** Hoffwn dderbyn y *Cylchgrawn Efengylaidd* yn rheolaidd gan ddechrau gyda rhifyn.....

○ **b.** Hoffwn geisio dosbarthu ..... copi o'r *Cylchgrawn Efengylaidd* (ni fydd rhaid i ddosbarthwyr dalu am bris cludiad).

*Rhowch groes wrth ochr **a** neu **b** yn ôl y gofyn*

Enw .....

Cyfeiriad.....

.....

tel: .....

Tanysgrifiad blwyddyn yn cynnwys cludiad: £8.00 (tramor: gweler isod)

Dychweler y ffurflen hon i:

Mudiad Efengylaidd Cymru, Bryntirion,
Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4DX

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i: 'Mudiad Efengylaidd Cymru'

—tanysgrifiad blwyddyn

Ym Mhrydain: £8.00, Post Awyr yn Ewrop: £9.80
Post Awyr tu allan i Ewrop: £12.20 Post Tir a Môr tu allan i Ewrop: £9.20